2604-06 Glanhawr

Pecyn: £13.45 yr awr (Cyflog Byw go iawn)

Math o gontract: Rhan-amser (10 awr yr wythnos), Parhaol

Yr her

Yn CBAC, rydym yn cyfrannu at ein cymunedau addysg drwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chymorth arbenigol, er mwyn rhoi cyfle i'n dysgwyr gyrraedd eu llawn botensial. Mae hwn yn gyfle gwych i fod yn rhan o sefydliad sy'n annog ac yn gwella meddyliau yfory.

Y rôl

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gynorthwyo â'r gwaith o lanhau prif Adeilad CBAC (Rhodfa'r Gorllewin), gan sicrhau bod y gwasanaeth glanhau yn effeithiol ac effeithlon. Yr oriau gwaith yw dydd Llun i ddydd Gwener o 5-7pm.

Amdanoch chi

I fwynhau'r rôl hon, byddwch yn berson hyblyg a brwdfrydig sy'n hoffi bod yn brysur a gweithio gyda chydweithwyr eraill ar draws CBAC. Bydd gennych ddull trefnus ac effeithlon o weithio, ochr yn ochr â pharodrwydd i chyflawni dyletswyddau a allai fod o natur ailadroddus.

Buddion

Rydym yn cynnig amrywiaeth o fanteision rhagorol gan gynnwys Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, opsiynau ar gyfer gweithio hyblyg a hawliau gwyliau hael – i gyd o fewn tîm gwych a diwylliant sy'n annog cynhwysiant ac amrywiaeth. Gall gyrfa gyda CBAC fod yn hynod o werthfawr a darperir hyfforddiant penodol i ddatblygu eich sgiliau proffesiynol mewn rôl.

Os hoffech wybod mwy am y rôl hon, neu am weithio yn CBAC, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm Adnoddau Dynol (AD@cbac.co.uk) sy'n sâl yn fwy na pharod i helpu.

Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.

Dyddiad cau: 23:59, dydd Mercher, 4 Tachwedd 2026

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

SWYDD-DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd:	**Glanhawr**
Adran:	Gweithrediadau
Is-Adran:	Cyfleusterau
Yn atebol i:	Y Goruchwyliwr Glanhau
Graddfa:	1
Lleoliad:	**Rhodfa'r Gorllewin**

Prif ddiben y Swydd:

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gynorthwyo â'r gwaith o lanhau prif Adeilad CBAC (Rhodfa'r Gorllewin), gan sicrhau bod y gwasanaeth glanhau yn effeithiol ac effeithlon.

Yr oriau gwaith yw dydd Llun i ddydd Gwener o 5-7 pm.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Bydd disgwyl i'r unigolyn a benodir lanhau swyddfeydd, coridorau a grisiau yn effeithiol trwy:

- Hwfro
- Gwacáu biniau sbwriel ac ailgylchu
- Llathru desgiau, silffoedd ffenestri, byrddau sgyrtin a'r holl barwydydd gwydr
- Dwstio (corneli a nenfydau) waliau a pheintwaith

Hefyd bydd disgwyl i'r unigolyn a benodir lanhau toiledau trwy lanhau:

- Powlenni toiled
- Sinciau
- Drychau
- Lloriau
- Ailgyflenwi papur toiled a sebon yn ôl yr angen.

Manyleb Person

Teitl y Swydd:	Glanhawr
Adran:	Gweithrediadau

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad i'r rô.

Sgiliau a Gallu

Hynod Ddymunol

- Prydlon
- Dibynadwy
- Agwedd gyfrifol at waith a'r gallu i weithio heb lawer o oruchwyliaeth
- Y gallu i blygu, cario, codi ac ymestyn er mwyn cyflawni dyletswyddau'r swydd
- Y gallu i ddod ymlaen yn dda â chydweithwyr ac i weithio fel rhan o dîm

Dymunol

- Sgiliau cyfrwng Cymraeg

Gwybodaeth

Dymunol

- Gwybodaeth sylfaenol am ofynion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â'r swydd

Profiad

Dymunol

- Profiad blaenorol o weithio naill ai mewn amgylchedd glanhau domestig neu fasnachol

Hyfforddiant / Cymwysterau

Gofynion Eraill

Dymunol

- Y gallu i ddeall cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Y gallu i ddefnyddio cyfrifiadur i gwblhau modiwlau hyfforddiant ar-lein perthnasol

Telerau ac Amodau Gwasanaeth / *Terms and Conditions of Service*

Teitl y Swydd / *Job Title:*	**Glanhawr** / *Cleaner*		
Cyflog / *Salary:*	**£13.45 yr awr (pro rata lle y bo'n gymwys)** / *£13.45 per hour (pro rata where applicable)*	**Gradd /** *Grade:*	**Cyflog Byw go iawn /** *Real Living Wage*
Gwyliau Blynyddol / *Annual Leave:*	**25 diwrnod (182.5 awr) y flwyddyn. Mae CBAC hefyd yn darparu 16 diwrnod (116.8 awr) i gyfrif am Wyliau Cyhoeddus a chyfnodau Cau CBAC (gwyliau ychwanegol). Mae'r lwfansau hyn yn cael eu haddasu ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan-amser neu batrymau gweithio cywasgedig.** *25 days (182.5 hours) per annum. WJEC also provides 16 days (116.8 hours) to account for Bank Holidays and WJEC Closure periods (Additional leave). These allowances are adjusted for staff who work part-time or compressed working patterns.*		
Pensiwn / *Pension:*	**Mae gofynion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn berthnasol.** *The provision of the Local Government Pension Scheme (LGPS) applies.*		

Math o Gytundeb / *Contract Type:*

Oriau Gwaith / *Working Hours:*		**Hyd y Contract** */ Length of Contract:*
☐ **Llawn-amser** / *Full-time*		☒ **Parhaol /** *Permanent*
☒ **Rhan-amser** / *Part-time*		☐ **Tymor penodol /** *Fixed-term*
Nifer yr oriau yr wythnos / *No. of hrs per week:*	10	**Dyddiad gorffen arfaethedig** / *Planned end date:* **Rheswm dros y cyfnod penodol** / *Reason for fixed term:*

Arall / *Other:*

Cyfnodau prysur llwyth gwaith / *Workload Peaks:*	**Amh** *N/A*

Dull Ymgeisio / *Method of Application:*

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at AD@cbac.co.uk erbyn **23:59, dydd Mercher, 4 Tachwedd 2026**.

Completed forms should be sent by email to HR@wjec.co.uk by **23:59, Wednesday, 4 November 2026**.